Parasitiaid Allanol – Y Clafr

Mae pob heigiad parasitig o'r croen a'r cnu yn gostus o ran colli cyflwr, triniaeth a lles.
Mae rheoli effeithiol yn dibynnu ar adnabod y parasit(iaid) sy'n bresennol.
Y prif broblemau sy'n deillio o barasitiaid allanol yw pryfedu, trogod, llau a'r clafr.
(Mae taflen ffeithiau ar wahân ar gyfer pryfedu, trogod a llau).
Mae'r clafr yn ymateb alergol sy'n cael ei achosi gan widdon Psoroptes ovis.

Arwyddion cynnar o'r clafr:

Mae arwyddion cynnar o'r clafr yn anodd eu canfod, ond maent yn cynnwys:

- Crafu a rhwbio yn erbyn ffensys a physt
- Gwlân yn dod yn rhydd o'r croen.

Arwyddion hwyrach o'r clafr:

- Rhwbio, crafu a thaflu'r pen
- Colli gwlân
- Clwyfau agored sy'n gwaedu
- Colli cyflwr yn gyflym.

Lleihau'r risg:

- Defnyddio triniaethau cemegol yn ôl y risg. Gweler gwefan SCOPS https://www.scops.org.uk/external-parasites/scab/
- Cael ffensys da rhwng ffermydd sy'n ffinio, a chael ffensys dwbl os oes modd
- Mae'n bwysig cydweithio i reoli diadelloedd ar ffermydd sy'n ffinio neu sy'n cyd-bori ar diroedd comin
- Dylid atal defaid rhag cyffwrdd mewn sioeau a marchnadoedd
- Dylid cael system fioddiogelwch dda ar gyfer unrhyw anifeiliaid sy'n cyrraedd y fferm.

Profion y Clafr

1. **Prawf Gwaed ELISA ar gyfer Y Clafr** – nod y prawf gwaed hwn yw sgrinio'r ddiadell. Bydd yn dangos achosion positif bythefnos ar ôl heintiad a chyn bod unrhyw arwyddion clinigol. Bydd angen 12 o famogiaid ar gyfer y prawf hwn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan SCOPS: https://www.scops.org.uk/external-parasites/scab/diagnosis/

2. **Crafiadau Croen**

   Mae modd gwneud profion ar gyfer y clafr drwy grafiadau croen. Holwch eich milfeddyg i gael gwybodaeth bellach.

Parasitiaid Allanol – Y Clafr

Triniaethau Cemegol ar gyfer Parasitiaid Allanol

- Mae'n bwysig gwybod pa barasit(iaid) sydd i gael triniaeth cyn penderfynu ynghylch y driniaeth a fydd fwyaf effeithiol. Mae modd gwneud hyn drwy gyfrwng profion diagnostig gan eich milfeddyg, a fydd yn gallu adnabod y gwiddon o dan ficrosgop
- Bydd triniaeth wedi ei thargedu hefyd yn cynyddu'r ymwrthedd i barasitiaid allanol
- Mae cynhyrchion ar gyfer pigiadau ar gael i atal y clafr, a dylid nodi fod y rhain yn rhoi triniaeth rhag llyngyr main yn ogystal
- Gwyddys fod rhai poblogaethau o lyngyr yn y DU yn ymwrthol i'r triniaethau drwy bigiad
- Os ydych yn dipio mewn twba, dylai'r twba dipio fod wedi ei raddnodi'n gywir. Caniatewch i ddefaid sydd wedi eu dipio sefyll yn y lloc draenio am o leiaf 10 munud i ddiferu fel bod y diferion yn llifo'n ôl i'r twba. Dipio yw'r ffordd orau, ac mae contracwyr ar gael i wneud y gwaith. Does dim hawl defnyddio dipiau OP mewn cawodydd, chwythellau na chwistrellau
- Mae'n well peidio â rhoi defaid sydd newydd gael eu dipio yn ôl yn syth ar y borfa. Rhowch nhw mewn cae dros dro (heb gwrs dŵr naturiol) sy'n ffinio â'r safle dipio gyda chafn o ddŵr glân am o leiaf 24 awr
- Os ydych chi'n defnyddio dipiau, rhaid i chi fod â Thystysgrif Cymhwysedd NPTC ar gyfer Defnyddio Dipiau Defaid yn Ddiogel.

Gwybodaeth Bellach

- Mae'n bwysig nodi nad defaid sy'n cyrraedd y fferm o'r tu allan yw'r unig fygythiad o ran lledaenu neu drosglwyddo'r clafr. Gall gwiddon y clafr fyw oddi ar yr anifail lletyol am fwy nag 16 diwrnod. Dylai unrhyw un sy'n dod i gysylltiad â defaid heintiedig (cneifwyr, contractwyr eraill, milfeddygon) ddiheintio eu dillad amddiffynnol a golchi croen heb ei orchuddio â dŵr (cyn boethed ag y gellir ei oddef) cyn gadael y fferm.
- Rhywbeth arall i'w ystyried yw glanhau cerbydau cludiant yn drylwyr, yn enwedig os ydynt yn cael eu rhannu.